

This document is available in Welsh / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg.



**POLISI
DERBYN I
YSGOLION
DRAFFT
2018/2019**

**CYNGOR DINAS CAERDYDD
ADDYSG A DYSGU GYDOL OES**

CYNGOR DINAS CAERDYDD

ADDYSG A DYSGU GYDOL OES

DERBYN I YSGOLION

Mae Cyngor Dinas Caerdydd yn ymrwymedig i gyfle cyfartal a diddymu gwahaniaethu anghyfreithlon. O ran derbyn i ysgolion, caiff pob disgybl a darpar ddisgybl ei drin yn deg, beth bynnag fo'i ryw, hil, ethnigrwydd, diwylliant, cenedligrwydd, iaith, gallu/anabledd neu gred grefyddol. Cymerir camau i sicrhau nad yw gweithdrefnau derbyn yn rhoi unrhyw grwpiau dan fantais neu anfantais annheg drwy ddefnyddio rheolau neu amodau na all pawb gydymffurfio â hwy.

ARDAL YMGYNGHORI BERTHNASOL

Yn unol â Rheoliadau Addysg (Ardaloedd Ymgynghori Perthnasol ar Drefniadau Derbyn) 1999, yr ardal berthnasol ar gyfer ysgolion cymunedol yng Nghaerdydd yw ardal weinyddol Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd (y Cyngor Sir). Yr ardal berthnasol ar gyfer ysgolion cynradd gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion cynradd gwirfoddol a reolir yng Nghaerdydd yw radiws o 3 milltir o'r ysgol ac, ar gyfer ysgolion uwchradd gwirfoddol a gynorthwyir, ardal weinyddol Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd (y Cyngor Sir).

Nifer Derbyn:

Rhaid i bob ysgol a gynhelir dderbyn disgyblion hyd at y nifer derbyn cyhoeddedig.

Ni ellir gwrthod mynediad i unrhyw ysgol hyd nes i'r nifer derbyn gael ei gyrraedd.

Cyfrifwyd y nifer derbyn cyhoeddedig yn unol â methodoleg cyfrifo capasiti ysgolion Llywodraeth Cymru, "Mesur Capasiti Ysgolion yng Nghymru". Gan fod y nifer hwn yn seiliedig ar gapasiti ffisegol yr ysgol i dderbyn disgyblion, ni ddylid derbyn mwy na'r nifer hwn dan amgylchiadau arferol.

CYNGOR DINAS CAERDYDD
ADDYSG A DYSGU GYDOL OES

POLISI DERBYN I YSGOLION: 2018/2019

DERBYN I DDOSBARTIADAU AC YSGOLION MEITHRIN

Y Cyngor yw'r Awdurdod Derbyn ar gyfer yr holl Ysgolion Meithrin Cymunedol a gynhelir a Dosbarthiadau Meithrin mewn Ysgolion Cymunedol.

Mae gan blant yr hawl i le meithrin rhan amser o ddechrau'r tymor sy'n dilyn eu pen-blwydd yn dair oed, a rhaid iddynt fynychu am bum hanner diwrnod. Mae lle ar wefan Cyngor Caerdydd i rieni roi manylion eu plentyn er mwyn iddynt dderbyn gwybodaeth ar sut i wneud cais am le meithrin ar yr adeg briodol yn unol ag amserlen dderbyn y Cyngor.

Yn achos plant sy'n derbyn gofal gan yr Awdurdod Lleol (yn ôl diffiniad Adran 22 Deddf Plant 1989) neu blant a arferai dderbyn gofal (yn ôl diffiniad dogfen rhif 005/2-13 Cod Derbyn i Ysgolion Llywodraeth Cymru) yn dilyn ymgynghoriad ar briodoldeb yr ysgol a enwyd o ystyried cefndir ac anghenion y plentyn, mae dyletswydd ar y Cyngor i dderbyn y plentyn i'r ysgol.

DYDDIAD CYHOEDDEDIG: Yn y Polisi hwn, ystyr y dyddiad cyhoeddedig yw'r dyddiad a nodir yn y Nodiadau Canllaw i Rieni a Llyfryn Gwybodaeth i Rieni 2018/2019.

Bydd y Cyngor yn ystyried pob cais unigol sy'n dod i law erbyn y dyddiad cau a gyhoeddwyd ar gyfer plentyn y mae'n rhaid iddo fod yn dair oed ar sail teilyngdod, gan ddefnyddio'r meini prawf canlynol a restrir yn ôl eu blaenoriaeth, hyd at yr uchafswm y gellir ei dderbyn:

1. Ar gyfer ceisiadau sy'n dod i law erbyn y dyddiad cau cyhoeddedig, sef 19 Chwefror 2018, ar gyfer plant a aned rhwng 1 Medi 2014 a 31 Awst 2015:
 - (a) Plant sy'n derbyn gofal gan yr Awdurdod Lleol (fel y diffinnir gan adran 22 Deddf Plant 1989) neu blant a arferai dderbyn gofal (yn ôl diffiniad dogfen rhif 005/2-13 Cod Derbyn i Ysgolion Llywodraeth Cymru)
 - (b) Plant y dyrannwyd cyllid meithrin ar eu cyfer gan Banel Asesu'r Blynnyddoedd Cynnar, neu'r Panel Cynghori ar Achosion. Bydd y paneli aml-asiantaeth hyn yn dyrannu cyllid ar gyfer plentyn yn y Blynnyddoedd Cynnar sydd ag anghenion sylweddol a/neu gymhleth drwy Gynllun Datblygu Unigol, fel y gall y plentyn fanteisio ar le meithrin mewn lleoliad a gynhelir.

plant y mae ganddynt frawd a/neu chwaer a fydd ar gofrestr yr ysgol y mae'r dosbarth meithrin ynddi pan gânt eu derbyn. Rhaid nodi unrhyw gysylltiad â brawd neu chwaer yn glir yn y cais. Pan fo mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael, caiff meini prawf d, e ac f eu defnyddio i benderfynu ar ba ddisgyblion eraill a gaiff eu derbyn. At ddibenion derbyn, mae brawd/chwaer yn blentyn sy'n byw yn barhaol yn yr un cyfeiriad â'r disgybl sy'n gwneud cais am le sy'n frawd/chwaer, hanner brawd/chwaer (plant sydd ag un rhiant yn gyffredin) neu'n llys frawd/llys chwaer (lle mae dau blentyn yn perthyn oherwydd bod eu rhieni wedi'u priodi, yn cyd-fyw neu mewn partneriaeth sifil). Mae'r diffiniad hwn hefyd yn cynnwys plant a fabwysiadwyd neu blant maeth sy'n byw yn yr un cyfeiriad.

plant y mae, ym marn y Cyngor, resymau meddygol neu gymdeithasol cryf dros eu derbyn i ysgol/dosbarth meithrin penodol.

Bydd rhaid cyflwyno argymhellion ysgrifenedig gan feddyg ymgynghorol, gweithiwr cymdeithasol neu weithiwr proffesiynol tebyg sy'n nodi rhesymau manwl dros dderbyn y plentyn i ysgol/dosbarth meithrin penodol. Pan fo mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael, rhoddir blaenoriaeth i frodyr/chwirydd genedigaeth luosog.

- (e) plant eraill a blaenoriaeth i blant sy'n byw agosaf at yr ysgol/dosbarth feithrin, yn ôl y llwybr cerdded ymarferol byrraf. Mae'r Cyngor yn defnyddio System Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS) i gyfrifo'r pellter rhwng y cartref a'r ysgol mewn milltiroedd i'r 2 bwynt degol agosaf. Caiff y llwybr cerdded mwyaf diogel ei gyfrifo gan ddefnyddio data llwybr a addaswyd yr Arolwg Ordnans (AO) o gyfeiriad cartref yr ymgeisydd i'r gât ysgol agored agosaf. Pennir cyfesurynnau cyfeiriad cartref ymgeisydd gan ddefnyddio'r Rhestr Tir ac Eiddo Lleol (LLPG) A Data Pwynt Cyfeiriad AO. Man cychwyn asesiad llwybr yw'r man agosaf ar y rhwydwaith llwybrau cerdded at fynediad blaen yr eiddo. Nid yw lonydd na llwybrau preifat yn cael eu cynnwys wrth fesur y pellter. Rhaid i bob llwybr o fewn y rhwydwaith gerdded fod ar gael i'r cyhoedd bedair awr ar hugain y dydd. Mae Cyngor Caerdydd wedi datblygu rhwydwaith o lwybrau cerdded cyfrifiadurol wedi'i seilio ar Ganllaw Gweithredol a Darpariaeth Statudol Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) Mehefin 2014. Defnyddir hwn i sicrhau bod pob disgybl yn cael ei asesu mewn ffordd mor gyson â phosibl. Pan nad oes llwybr cerdded diogel ar gael, bydd y Cyngor yn cyfrifo'r pellter gyrru byrraf rhwng y cyfeiriad cartref a'r gât ysgol agored agosaf, drwy ddefnyddio'r un System Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS) a ddefnyddir i fesur y llwybr cerdded byrraf a mwyaf ymarferol.

Wrth benderfynu ar geisiadau i dderbyn disgyblion eraill, bydd y Cyngor yn rhoi blaenoriaeth i'r plant sy'n byw bellaf o'r ysgol arall a gynigir gan y Cyngor, yn ôl y llwybr cerdded ymarferol byrraf. Mae'r Cyngor yn defnyddio System Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS) i gyfrifo'r pellter rhwng y cartref a'r ysgol mewn milltiroedd i'r 2 bwynt degol agosaf. Caiff y llwybr cerdded mwyaf diogel ei gyfrifo gan ddefnyddio data llwybr a addaswyd yr Arolwg Ordnans (AO) o gyfeiriad cartref yr ymgeisydd i'r gât ysgol agored agosaf. Pennir cyfesurynnau cyfeiriad cartref ymgeisydd gan ddefnyddio'r Rhestr Tir ac Eiddo Lleol (LLPG) A Data Pwynt Cyfeiriad AO.

Man cychwyn asesiad llwybr yw'r man agosaf ar y rhwydwaith llwybrau cerdded at fynediad blaen yr eiddo.

Nid yw lonydd na llwybrau preifat yn cael eu cynnwys wrth fesur y pellter. Rhaid i bob llwybr o fewn y rhwydwaith gerdded fod ar gael i'r cyhoedd bedair awr ar hugain y dydd. Mae Cyngor Caerdydd wedi datblygu rhwydwaith o lwybrau cerdded cyfrifiadurol wedi'i seilio ar Ganllaw Gweithredol a Darpariaeth Statudol Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) Mehefin 2014. Defnyddir hwn i sicrhau bod pob disgybl yn cael ei asesu mewn ffordd mor gyson â phosibl. Pan nad oes llwybr cerdded diogel ar gael, bydd y Cyngor yn cyfrifo'r pellter gyrru byrraf rhwng y cyfeiriad cartref a'r gât ysgol agored agosaf, drwy ddefnyddio'r un System Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS) a ddefnyddir i fesur y llwybr cerdded byrraf a mwyaf ymarferol.

Yn achos fflatiau penderfynir ar y llwybr asesu o fynedfa flaen pob fflat.

2. O ran ceisiadau a dderbyniwyd erbyn y dyddiad cau a gyhoeddwyd, sef 2 Gorffennaf 2018 ar gyfer plant a aned rhwng 1 Medi 2015 a 31 Rhagfyr 2015: (a) i (f) fel uchod
3. O ran ceisiadau a dderbyniwyd erbyn y dyddiad cau a gyhoeddwyd, sef 3 Gorffennaf 2017 ar gyfer plant a aned rhwng 1 Ionawr 2016 a 31 Rhagfyr 2016: (a) i (f) fel uchod

Gall unrhyw le a gymeradwywyd ar sail preswylfa gael ei dynnu'n ôl os nad yw'r disgybl yn byw yn y cyfeiriad mwyach ar ddechrau'r tymor ysgol y mae'r cais yn berthnasol iddo (gweler dyddiadau tymor ysgolion ar dudalen 54). Ystyrir mai'r cyfeiriad cartref arferol yw prif a gwir breswylfa'r plentyn ar y dyddiad cau perthnasol a gyhoeddwyd, h.y. ble maent yn byw fel arfer ac yn rheolaidd. Caiff unrhyw le a gymeradwywyd ar sail preswylfa ei dynnu'n ôl os nad yw'r disgybl yn byw yn y cyfeiriad yn barhaol ar ddechrau'r tymor ysgol y mae'r cais yn berthnasol iddo (cyhoeddwyd y dyddiadau tymhorau yn y Llyfryn Derbyn i Ysgolion). Y cyfeiriad cartref yw prif a gwir breswylfa'r plentyn a'i riant ar y dyddiad cau cyhoeddedig perthnasol, h.y. lle maent yn byw fel arfer ac yn rheolaidd. Os yw'r plentyn yn byw gyda ffrindiau neu berthnasau (am resymau heblaw am warcheidwaeth), ni chaiff cyfeiriad y ffrindiau neu berthnasau ei ystyried at ddibenion derbyn.

Ar ôl y rownd gyntaf o ddyrannu lleoedd, caiff ceisiadau hwyr eu hystyried yn unol â'r meini prawf derbyn a gyhoeddwyd gan y Cyngor.

Bydd ceisiadau o'r rownd gyntaf o ddyrannu lleoedd a wrthodwyd, ac unrhyw geisiadau hwyr wedi hynny, yn cael eu hystyried ar y cyd ar gyfer unrhyw lleoedd allai godi.

Caiff ceisiadau hwyrach eu prosesu bob mis.

Derbynnir cyfeiriad personél lluoedd arfog y DU os caiff y ffurflen gais ei hanfon gyda llythyr swyddogol gan y Weinyddiaeth Amddiffyn sy'n datgan dyddiad dychwelyd pendant a chadarnhad o'r cyfeiriad newydd.

Pan fo rhieni'n rhannu cyfrifoldeb dros blentyn, a bod y plentyn yn byw gyda'r ddau riant am ran o'r wythnos ysgol, ystyrir y cyfeiriad cartref fel y man y mae'r plentyn yn byw ynddo am y rhan fwyaf o'r wythnos ysgol (h.y. 3 allan o 5 diwrnod). Bydd yn rhaid i rieni gyflwyno dogfennau fel tystiolaeth i ategu'r cyfeiriad y maent am iddo gael ei ystyried at ddibenion derbyn.

Nid ystyrir yr ysgol gynradd benodol y mae'r plentyn yn debygol o'i mynychu ar ôl hynny, nac ers faint o amser mae'r ysgol wedi bod yn ymwybodol o fwriad y rhieni i wneud cais am le yn yr ysgol.

Ni fyddwn yn ystyried ceisiadau a fydd yn ein cyrraedd ar ôl y dyddiad cau cyhoeddedig perthnasol yn y rownd gyntaf o ddyrannu lleoedd. Caiff ceisiadau eraill a gawn eu hystyried yn geisiadau hwyr.

Gan fod addysg feithrin yn ddarpariaeth anstatudol, nid oes gan rieni hawl statudol i apelio dan y Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 os na fyddant yn llwyddo i gael lle meithrin.

Cyllid y Blynnyddoedd Cynnar

Lle nad oes lleoedd ar gael mewn ysgolion meithrin neu ddosbarthiadau meithrin cymunedol o fewn dwy filltir o breswylfa plentyn, gall rhieni wneud cais am gyllid i sicrhau lle meithrin gyda darparwr cydnabyddedig a bennir gan Grŵp Plentynod Cynnar Caerdydd.

Lle bo lleoedd ar gael mewn ysgolion meithrin neu ddosbarthiadau meithrin cymunedol lleol o fewn dwy filltir o breswylfa plentyn, bydd y Cyngor ond yn cymeradwyo ceisiadau am gyllid i sicrhau lle meithrin gyda darparwr cydnabyddedig a bennir gan Grŵp Plentynod Cynnar Caerdydd pan fo rhesymau meddygol neu gymdeithasol cymhellol sy'n ei gwneud yn amhrifodol i'r plentyn fynychu'r ddarpariaeth feithrin a gynigiwyd gan y Cyngor. Bydd yn rhaid cyflwyno argymhellion ysgrifenedig gan ymarferydd meddygol, gweithiwr cymdeithasol neu weithiwr proffesiynol tebyg.

Dylid gwneud ceisiadau am Gyllid y Blynnyddoedd Cynnar yn ystod y tymor cyn y bydd y plentyn yn gymwys i gael cyllid, neu os bydd plentyn yn dechrau mewn meithrinfa gyda darparwr cydnabyddedig ar ddyddiad diweddarach, dylid cyflwyno ceisiadau yn ystod y tymor y caiff ei dderbyn. Ni fydd y Cyngor yn derbyn ôl-geisiadau am gyllid pan fyddai lle mewn Meithrinfa Gymunedol wedi bod ar gael o fewn 2 filltir o gyfeiriad cartref y plentyn ond nad yw ar gael mwyach gan fod y rhiant wedi oedi wrth wneud cais.

Hefyd, ni fydd y Cyngor yn cymeradwyo ceisiadau am Gyllid y Blynnyddoedd Cynnar pan gynigiodd lle mewn Ysgol neu Ddosbarth Meithrin Cymunedol yn flaenorol ar adeg y cais ond y gwrthodwyd y lle hwnnw gan y rhiant.

Nid yw mynychu dosbarth meithrin gymunedol yn golygu bod gan y plentyn hwnnw hawl awtomatig i gael lle mewn dosbarth derbyn yn yr un ysgol. Rhaid gwneud cais newydd am le mewn Dosbarth Derbyn.

DRAFT

POLISI DERBYN I YSGOLION: 2018/2019

DERBYN I YSGOLION CYNRADD

Y Cyngor yw'r Awdurdod Derbyn ar gyfer yr holl Ysgolion Cynradd Cymunedol – Babanod, Iau a Chynradd - ac mae'n ymrwymedig i ddarparu ysgolion lleol i blant lleol lle y bo'n bosibl.

Cymeradwyir yr holl dderbyniadau gan y Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes.

Derbynnir plant i ddosbarthiadau derbyn yn y mis Medi ar ôl eu pen-blwydd yn bedair oed. Mae lle ar wefan Cyngor Caerdydd i rieni roi manylion eu plentyn er mwyn iddynt dderbyn gwybodaeth ar sut i wneud cais am le meithrin ar yr adeg briodol yn unol ag amserlen dderbyn y Cyngor. Argymhellir i rieni sydd wedi cofrestru manylion eu plentyn â'r Cyngor wneud cais am le yn eu hysgolion dewis yn ystod Tymor yr Hydref gan ddefnyddio Gwasanaeth Gwneud Cais Ar-lein y Cyngor neu drwy lenwi ffurflen dewis. Bydd rhieni a gyflwynodd gais erbyn y dyddiad cau cyhoeddedig sef dydd Llun 8 Ionawr 2018 yn cael gwybod canlyniad eu cais ar ddydd Llun 16 Ebrill 2018.

Nid yw mynychu dosbarth meithrin gymunedol yn golygu bod gan y plentyn hwnnw hawl awtomatig i gael lle mewn dosbarth derbyn yn yr un ysgol. Rhaid gwneud cais newydd am le mewn Dosbarth Derbyn.

Mae gan rieni yr hawl i fynegi dewis a fydd yn cael ei ystyried yn unigol, a bydd y dewis hwn yn cael ei fodloni lle y bo'n bosibl. Mae rhai ysgolion yn cael mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael. Pan mae ysgol yn cael gormod o geisiadau caiff y dewisiadau eu hystyried o hyd ond defnyddir y blaenoriaethau a bennwyd gan y Cyngor. Wrth benderfynu pa blant i'w derbyn i ysgol, bydd y Cyngor yn defnyddio'r meini prawf isod yn ôl blaenoriaeth (1 yw'r flaenoriaeth uchaf) ac yn archwilio teilyngdod pob achos drwy ystyried unrhyw resymau a nodir i ategu'r dewis a fynegwyd. Fel arfer ni fydd y Cyngor yn mynd y tu hwnt i Nifer Derbyn yr ysgol nac yn mynd yn groes i'r cyfyngiadau statudol ar yr uchafswm o ddisgyblion a geir mewn dosbarth (30) lle bo hyn y berthnasol.

Pan mae ysgol wedi'i henwi mewn datganiad o anghenion addysgol arbennig a phan mai'r Cyngor yw'r awdurdod derbyn, mae dyletswydd ar y Cyngor i dderbyn y plentyn i'r ysgol.

Yn achos plant sy'n derbyn gofal gan yr Awdurdod Lleol (yn ôl diffiniad Adran 22 Deddf Plant 1989) neu blant a arferai dderbyn gofal (yn ôl diffiniad dogfen rhif 005/2-13 Cod Derbyn i Ysgolion Llywodraeth Cymru) yn dilyn ymgynghoriad ar briodoldeb yr ysgol a enwyd o ystyried cefndir ac anghenion y plentyn, mae dyletswydd ar y Cyngor i dderbyn y plentyn i'r ysgol.

DYDDIAD CYHOEDDEDIG: Yn y Polisi hwn, ystyr y dyddiad cyhoeddedig yw'r dyddiad a nodir yn y Nodiadau Canllaw i Rieni a Llyfryn Gwybodaeth i Rieni 2018/2019.

1. Plant sy'n derbyn gofal gan yr Awdurdod Lleol (fel y diffinnir gan adran 22 Deddf Plant 1989) neu blant a arferai dderbyn gofal (yn ôl diffiniad dogfen rhif 005/2-13 Cod Derbyn i Ysgolion Llywodraeth Cymru).
2. Plant y dyrannwyd cyllid meithrin ar eu cyfer gan Banel Asesu'r Blynnyddoedd Cynnar, neu'r Panel Cyngori ar Achosion.
Bydd y paneli aml-asiantaeth hyn yn dyrannu cyllid ar gyfer plentyn yn y Blynnyddoedd Cynnar sydd ag anghenion sylweddol a/neu gymhleth drwy Gynllun Datblygu Unigol, fel y gall y plentyn fanteisio ar le meithrin mewn lleoliad a gynhelir.
3. (a) Os cyfeiriodd y Cyngor frawd/chwaer hŷn i ysgol arall gan mai'r ysgol honno a arferai fod yn ysgol y dalgylch, os dymuna'r rhiant bydd y Cyngor yn derbyn brodyr/chwiorydd iau i'r ysgol arall honno. Mae hyn ond yn berthnasol pan fo'r brawd/chwaer hŷn yn mynychu'r ysgol arall honno yn ystod y flwyddyn academaidd y mae'r cais yn berthnasol iddi. Hefyd, rhaid bod y brawd/chwaer iau yn byw yn yr un cyfeiriad (neu mewn cyfeiriad yn y dalgylch cyn iddo gael ei newid) â'r brawd/chwaer hŷn ar adeg y cais gwreiddiol.

(b) Os cyfeiriodd y Cyngor frawd/chwaer hŷn at ysgol arall gan nad oedd lleoedd ar gael yn ysgol y dalgylch, os dymuna'r rhiant bydd y Cyngor yn derbyn brodyr/chwiorydd iau i'r ysgol arall honno. Mae hyn ond yn berthnasol pan fo'r brawd/chwaer hŷn yn mynychu'r ysgol arall honno yn ystod y flwyddyn academaidd y mae'r cais yn berthnasol iddi.
- 4 Disgyblion sy'n byw yn barhaol yn nalgylch diffiniedig* yr ysgol ar y dyddiad cau a gyhoeddwyd ar gyfer cyflwyno ffurflenni dewis, sef 8th Ionawr 2018. Rhaid cyflwyno tystiolaeth o breswylfa barhaus y disgybl os oes gofyn amdani. Pan mae rhagor o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael, rhoddir blaenoriaeth i frodyr/chwiorydd aml-enedigaeth a fydd yn byw yn y dalgylch diffiniedig. Yna caiff meini prawf 5, 6, 7, 8 a 9 eu defnyddio i benderfynu pa ddisgyblion eraill a gaiff eu derbyn.
- 5 Plant, ym marn y Cyngor, y mae rhesymau meddygol neu gymdeithasol cryf dros eu derbyn i ysgol benodol. Bydd rhaid cyflwyno argymhellion ysgrifenedig gan feddyg ymgynghorol, gweithiwr cymdeithasol neu weithiwr proffesiynol tebyg sy'n nodi rhesymau manwl dros dderbyn y plentyn i ysgol benodol. Pan mae rhagor o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael, caiff meini prawf 6, 7, 8 a 9 eu defnyddio i benderfynu pa ddisgyblion eraill a gaiff eu derbyn.

- 6 Disgyblion y mae ganddynt frawd a/neu chwaer o oedran ysgol statudol a fydd ar gofrestr yr ysgol pan gânt eu derbyn. Wrth ystyried brodyr neu chwiorydd rhoir blaenoriaeth i geisiadau gan frodyr neu chwiorydd o enedigaethau lluosog Pan mae rhagor o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael, caiff meini prawf 7, 8 a 9 eu defnyddio i benderfynu pa ddisgyblion eraill a gaiff eu derbyn. At ddibenion derbyn, mae brawd/chwaer yn blentyn sy'n byw yn barhaol yn yr un cyfeiriad â'r disgybl sy'n gwneud cais am le sy'n frawd/chwaer, hanner brawd/chwaer (plant â chanddynt un rhiant yn gyffredin) neu'n llys frawd/llys chwaer (lle mae dau blentyn yn perthyn oherwydd bod eu rhieni wedi'u priodi, yn cyd-fyw neu mewn partneriaeth sifil). Mae'r diffiniad hwn hefyd yn cynnwys plant a fabwysiadwyd neu blant maeth sy'n byw yn yr un cyfeiriad.
- 7 Wrth benderfynu ar geisiadau i'w derbyn o ran disgyblion eraill, bydd y Cyngor yn rhoi blaenoriaeth i'r plant sy'n byw agosaf at yr ysgol fel y mesurir yn ôl y llwybr cerdded ymarferol byrraf. Mae'r Cyngor yn defnyddio System Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS) i gyfrifo'r pellter rhwng y cartref a'r ysgol mewn milltiroedd i'r 2 bwynt degol agosaf. Caiff y llwybr cerdded mwyaf diogel ei gyfrifo gan ddefnyddio data llwybr a addaswyd yr Arolwg Ordnans (AO) o gyfeiriad cartref yr ymgeisydd i'r gât ysgol agored agosaf. Pennir cyfesurynnau cyfeiriad cartref ymgeisydd gan ddefnyddio'r Rhestr Tir ac Eiddo Lleol (LLPG) A Data Pwynt Cyfeiriad AO. Man cychwyn asesiad llwybr yw'r man agosaf ar y rhwydwaith llwybrau cerdded at fynediad blaen yr eiddo. Nid yw lonydd na llwybrau preifat yn cael eu cynnwys wrth fesur y pellter. Rhaid i bob llwybr o fewn y rhwydwaith gerdded fod ar gael i'r cyhoedd bedair awr ar hugain y dydd. Pan mae rhagor o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael, caiff maen prawf 8 ei ddefnyddio i benderfynu ar ba ddisgyblion eraill a gaiff eu derbyn. Mae Cyngor Caerdydd wedi datblygu rhwydwaith o lwybrau cerdded cyfrifiadurol wedi'i seilio ar Ganllaw Gweithredol a Darpariaeth Statudol Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) Mehefin 2014. Defnyddir hwn i sicrhau bod pob disgybl yn cael ei asesu mewn ffordd mor gyson â phosibl. Pan nad oes llwybr cerdded diogel ar gael, bydd y Cyngor yn cyfrifo'r pellter gyrru byrraf rhwng y cyfeiriad cartref a'r gât ysgol agored agosaf, drwy ddefnyddio'r un System Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS) a ddefnyddir i fesur y llwybr cerdded byrraf a mwyaf ymarferol.
- 8 Wrth benderfynu ar geisiadau i dderbyn disgyblion eraill, bydd y Cyngor yn rhoi blaenoriaeth i'r plant sy'n byw bellaf o'r ysgol arall a gynigir gan y Cyngor, yn ôl y llwybr cerdded ymarferol byrraf. Mae'r Cyngor yn defnyddio System Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS) i gyfrifo'r pellter rhwng y cartref a'r ysgol mewn milltiroedd i'r 2 bwynt degol agosaf. Caiff y llwybr cerdded mwyaf diogel ei gyfrifo gan ddefnyddio data llwybr a addaswyd yr Arolwg Ordnans (AO) o gyfeiriad cartref yr ymgeisydd i'r gât ysgol agored agosaf. Pennir cyfesurynnau cyfeiriad cartref ymgeisydd gan ddefnyddio'r Rhestr Tir ac Eiddo Lleol (LLPG) A Data Pwynt Cyfeiriad AO. Man cychwyn asesiad llwybr yw'r man agosaf ar y rhwydwaith llwybrau cerdded at fynediad blaen yr eiddo. Nid yw lonydd na llwybrau preifat yn cael eu cynnwys wrth fesur y pellter. Rhaid i bob

llwybr o fewn y rhwydwaith gerdded fod ar gael i'r cyhoedd bedair awr ar hugain y dydd. Mae Cyngor Caerdydd wedi datblygu rhwydwaith o lwybrau cerdded cyfrifiadurol wedi'i seilio ar Ganllaw Gweithredol a Darpariaeth Statudol Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) Mehefin 2014. Defnyddir hwn i sicrhau bod pob disgybl yn cael ei asesu mewn ffordd mor gyson â phosibl. Pan nad oes llwybr cerdded diogel ar gael, bydd y Cyngor yn cyfrifo'r pellter gyrru byrraf rhwng y cyfeiriad cartref a'r gât ysgol agored agosaf, drwy ddefnyddio'r un System Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS) a ddefnyddir i fesur y llwybr cerdded byrraf a mwyaf ymarferol.

Yn achos fflatiau penderfynir ar y llwybr asesu o fynedfa flaen pob fflat.

9 Disgyblion y cymeradwyodd y Cyngor eu derbyn i'r ysgol ymlaen llaw.

Dim ond ceisiadau sy'n dod i law erbyn y dyddiad cau a gyhoeddwyd ar gyfer derbyn ceisiadau, sef 9 Ionawr 2017, a gaiff eu hystyried yn y rownd gyntaf o ddyrannu lleoedd. Caiff ceisiadau eraill a gawn eu hystyried yn geisiadau hwyr.

Caiff unrhyw le a gymeradwywyd ar sail preswylfa ei dynnu'n ôl os nad yw'r disgybl yn byw yn y cyfeiriad yn barhaol ar ddechrau'r tymor ysgol y mae'r cais yn berthnasol iddo (cyhoeddwyd y dyddiadau tymhorau yn y Llyfryn Derbyn i Ysgolion). Y cyfeiriad cartref yw prif a gwir breswylfa'r plentyn a'i riant ar y dyddiad a gyhoeddwyd, sef 8 Ionawr 2018 h.y. lle maent yn byw fel arfer ac yn rheolaidd. Os yw'r plentyn yn byw gyda ffrindiau neu berthnasau (am resymau heblaw am warcheidwaeth), ni chaiff cyfeiriad y ffrindiau neu berthnasau ei ystyried at ddibenion derbyn.

Pan fo rhieni'n rhannu cyfrifoldeb dros blentyn, a bod y plentyn yn byw gyda'r ddau riant am ran o'r wythnos ysgol, ystyrir y cyfeiriad cartref fel y man y mae'r plentyn yn byw ynddo am y rhan fwyaf o'r wythnos ysgol (h.y. 3 allan o 5 diwrnod). Bydd yn rhaid i rieni gyflwyno dogfennau fel tystiolaeth i ategu'r cyfeiriad y maent am iddo gael ei ystyried at ddibenion derbyn.

Caiff plant personél lluoedd arfog y DU eu trin fel petaent yn byw yn y dalgylch os caiff y ffurflen gais ei hanfon gyda llythyr swyddogol gan y Weinyddiaeth Amddiffyn sy'n datgan dyddiad dychwelyd pendant a chadarnhad o'r cyfeiriad newydd.

Nid oes yn rhaid i blentyn ddechrau yn yr ysgol tan ddechrau'r tymor ar ôl ei ben-blwydd yn bump oed. Pan gynigir lle mewn dosbarth derbyn i rieni cyn bod eu plentyn o oedran ysgol gorfodol, gall y rhieni ddewis i'w plentyn ddechrau yn y dosbarth derbyn yn ddiweddarach yn yr un flwyddyn ysgol. Yn sgîl hynny caiff y lle ei gadw i'r plentyn hwnnw ac ni fydd modd ei gynnig i blentyn arall. Fodd bynnag, ni fyddai'r rhieni yn gallu dewis i'w plentyn ddechrau yn yr ysgol yn hwyrach na'r tymor ar ôl ei ben-blwydd yn bump oed, nac y tu hwnt i'r flwyddyn academaidd y derbyniwyd y cais gwreiddiol ar ei chyfer. Dylai rhieni drafod cynlluniau i'w plentyn ddechrau yn yr ysgol dymor yn hwyrach gyda'r Pennaeth perthnasol.

Rhestrau Aros

Pan fo cais yn cael ei wrthod, bydd y plentyn yn cael ei roi ar restr aros. Bydd ceisiadau a geir fel rhan o'r broses flynyddol o ddyrannu lleoedd yn aros ar y rhestr aros tan Dymor yr Hydref 2018. Bydd ceisiadau a geir y tu allan i'r broses flynyddol o ddyrannu lleoedd sy'n ymwneud â derbyniadau yn ystod y flwyddyn yn aros ar y rhestr aros tan ddiwedd y tymor y mae'r cais yn berthnasol iddo. Ar ôl yr amser hwn disgwylir i rieni gyflwyno cais arall.

Ceisiadau Hwyr

Ar ôl y rownd gyntaf o ddyrannu lleoedd, caiff ceisiadau hwyr eu hystyried yn unol â'r meini prawf derbyn a gyhoeddwyd gan y Cyngor.

Bydd ceisiadau o'r rownd gyntaf o ddyrannu lleoedd a wrthodwyd, ac unrhyw geisiadau hwyr wedi hynny, yn cael eu hystyried ar y cyd ar gyfer unrhyw lleoedd allai godi.

Caiff ceisiadau hwyr eu prosesu bob mis fel arfer.

Ceisiadau Yn Ystod y Flwyddyn

Pe bai'r Cyngor yn cael mwy o geisiadau ar gyfer grŵp oedran na nifer y lleoedd sydd ar gael, bydd lleoedd yn cael eu llenwi drwy ddefnyddio'r meini prawf derbyn uchod. (Mae'r terfynau amser yn cyfeirio at y broses flynyddol o ddyrannu lleoedd i'r grŵp oedran Derbyn ym mis Medi 2018).

Apeliadau Statudol

Os yw rhieni'n anfodlon ar ganlyniad cais ar gyfer Ysgol Gynradd Gymunedol benodol, gellir cyflwyno cais i'r Panel Apeliadau Statudol Annibynnol. Bydd y Cyngor yn rhwym wrth unrhyw benderfyniad a wneir gan y Panel. Os na fydd yr apêl yn llwyddiannus, ni chaiff ceisiadau pellach am le yn yr un ysgol eu hystyried ar gyfer yr un flwyddyn academaidd oni fydd y Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes yn penderfynu bod newidiadau sylweddol a pherthnasol i amgylchiadau'r disgybl/rhieni neu'r ysgol.

Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir

Yn achos Ysgol Gynradd Gwirfoddol a Reolir yr Eglwys yng Nghymru Llaneirwg, mae'r Cyngor wedi cytuno i ddirprwyo cyfrifoldeb dros dderbyniadau i'r Corff Llywodraethu. Felly dylid gwneud ceisiadau yn uniongyrchol i'r ysgol.

* Ceir gwybodaeth am ddaigylchoedd ar wefan y Cyngor.

**CYNGOR DINAS CAERDYDD
ADDYSG A DYSGU GYDOL OES**

POLISI DERBYN I YSGOLION: 2018/2019

DERBYN I YSGOLION UWCHRADD

Y Cyngor yw'r Awdurdod Derbyn ar gyfer yr holl Ysgolion Uwchradd Cymunedol a gynhelir. Cymeradwyir yr holl dderbyniadau gan y Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes.

Mae plant yn symud i addysg uwchradd yn y mis Medi ar ôl eu pen-blwydd yn un ar ddeg.

Yn Nhymor yr Hydref, gwahoddir rhieni disgyblion Blwyddyn 6 mewn Ysgolion Cynradd Cymunedol i enwebu eu hysgol uwchradd ddewis naill ai drwy ddefnyddio Gwasanaeth Gwneud Cais Ar-lein y Cyngor neu drwy gwblhau ffurflen dewis. Rhoddir gwybod i rieni hefyd am ysgol eu dalgylch. Bydd rhieni a gyflwynodd gais erbyn y dyddiad cau cyhoeddedig sef dydd Llun 4 Ionawr 2017 yn cael gwybod canlyniad eu cais ar ddydd Iau 1 Mawrth 2018.

Mae gan rieni yr hawl i fynegi dewis a fydd yn cael ei ystyried yn unigol, a bydd y dewis hwn yn cael ei fodloni lle y bo'n bosibl. Mae rhai ysgolion yn cael mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael. Pan mae ysgol yn cael gormod o geisiadau caiff y dewisiadau eu hystyried o hyd ond defnyddir y blaenoriaethau a bennwyd gan y Cyngor. Wrth benderfynu pa blant i'w derbyn i ysgol, bydd y Cyngor yn defnyddio'r meini prawf isod yn ôl blaenoriaeth (1 yw'r flaenoriaeth uchaf) ac yn archwilio teilyngdod pob achos drwy ystyried unrhyw resymau a nodir i ategu'r dewis a fynegwyd. Ni fydd y Cyngor fel arfer yn derbyn mwy o ddisgyblion na Nifer Derbyn yr ysgol.

Pan mae ysgol wedi'i henwi mewn datganiad o anghenion addysgol arbennig a phan mai'r Cyngor yw'r awdurdod derbyn, mae dyletswydd ar y Cyngor i dderbyn y plentyn i'r ysgol.

Yn achos plant sy'n derbyn gofal gan yr Awdurdod Lleol (yn ôl diffiniad Adran 22 Deddf Plant 1989) neu blant a arferai dderbyn gofal (yn ôl diffiniad dogfen rhif 005/2-13 Cod Derbyn i Ysgolion Llywodraeth Cymru) yn dilyn ymgynghoriad ar briodoldeb yr ysgol a enwyd o ystyried cefndir ac anghenion y plentyn, mae dyletswydd ar y Cyngor i dderbyn y plentyn i'r ysgol.

DYDDIAD CYHOEDDEDIG: Yn y Polisi hwn, ystyr y dyddiad cyhoeddedig yw'r dyddiad a nodir yn y Nodiadau Canllaw i Rieni a Llyfryn Gwybodaeth i Rieni 2018/2019.

1. Plant sy'n derbyn gofal gan yr Awdurdod Lleol (fel y diffinnir gan adran 22 Deddf Plant 1989) neu blant a arferai dderbyn gofal (yn ôl diffiniad dogfen rhif 005/2-13 Cod Derbyn i Ysgolion Llywodraeth Cymru).
2. (a) Os cyfeiriodd y Cyngor frawd/chwaer hŷn at ysgol arall gan mai'r ysgol honno a arferai fod yn ysgol y dalgylch, ac os dymuna'r rhiant, bydd y Cyngor yn derbyn brodyr/chworiydd iau i'r ysgol arall honno. Mae hyn ond yn berthnasol pan fo'r brawd/chwaer hŷn yn mynychu'r ysgol arall honno yn ystod y flwyddyn academaidd y mae'r cais yn berthnasol iddi. Hefyd, rhaid bod y brawd/chwaer iau yn byw yn yr un cyfeiriad (neu mewn cyfeiriad yn y dalgylch cyn iddo gael ei newid) â'r brawd/chwaer hŷn ar adeg y cais gwreiddiol.

(b) Os cyfeiriodd y Cyngor frawd/chwaer hŷn at ysgol arall gan nad oedd lleoedd ar gael yn ysgol y dalgylch, os dymuna'r rhiant bydd y Cyngor yn derbyn brodyr/chworiydd iau i'r ysgol arall honno. Mae hyn ond yn berthnasol pan fo'r brawd/chwaer hŷn yn mynychu'r ysgol arall honno yn ystod y flwyddyn academaidd y mae'r cais yn berthnasol iddi. Disgyblion sy'n byw yn barhaol yn nalgylch diffiniedig (b)* yr ysgol ar y dyddiad cau a gyhoeddwyd i gyflwyno ffurflenni dewis, sef 4 Rhagfyr 2017. Rhaid cyflwyno tystiolaeth o breswylfa barhaus y disgybl os oes gofyn amdani. Pan mae rhagor o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael, rhoddir blaenoriaeth i frodyr/chworiydd aml-enedigaeth a fydd yn byw yn y dalgylch diffiniedig. Yna caiff meini prawf 4, 5, 6, 7 a 8 eu defnyddio i benderfynu pa ddisgyblion eraill a gaiff eu derbyn.
3. Plant, ym marn y Cyngor, y mae rhesymau meddygol neu gymdeithasol cryf dros eu derbyn i ysgol benodol. Bydd rhaid cyflwyno argymhellion ysgrifenedig gan feddyg ymgynghorol, gweithiwr cymdeithasol neu weithiwr proffesiynol tebyg sy'n nodi rhesymau manwl dros dderbyn y plentyn i ysgol benodol. Pan mae rhagor o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael, caiff meini prawf 5, 6, 7 a 8 eu defnyddio i benderfynu pa ddisgyblion eraill a gaiff eu derbyn.
4. Disgyblion y mae ganddynt frawd a/neu chwaer a fydd ar gofrestr yr ysgol ym Mlynnyddoedd 8 i 11 pan gânt eu derbyn. Wrth ystyried brodyr neu chworiydd rhoir blaenoriaeth i geisiadau gan frodyr neu chworiydd o enedigaethau lluosog Rhaid nodi unrhyw gysylltiad â brawd neu chwaer yn glir yn y cais. Pan fydd mwy o geisiadau am leoedd ysgol na nifer y lleoedd sydd ar gael, caiff meini prawf 6, 7 a 8 eu defnyddio i benderfynu ar ba ddisgyblion eraill a gaiff eu derbyn. At ddibenion derbyn, mae brawd/chwaer yn blentyn sy'n byw yn barhaol yn yr un cyfeiriad â'r disgybl sy'n gwneud cais am le sy'n frawd/chwaer, hanner brawd/chwaer (plant â chanddynt un rhiant yn gyffredin) neu'n llys frawd/llys chwaer (lle mae dau blentyn yn perthyn oherwydd bod eu rhieni wedi'u priodi, yn cyd-fyw neu mewn partneriaeth sifil). Mae'r diffiniad hwn hefyd yn

cynnwys plant a fabwysiadwyd neu blant maeth sy'n byw yn yr un cyfeiriad.

5. Wrth benderfynu ar geisiadau i'w derbyn o ran disgyblion eraill, bydd y Cyngor yn rhoi blaenoriaeth i'r plant sy'n byw agosaf at yr ysgol fel y mesurir yn ôl y llwybr cerdded ymarferol byrraf. Mae'r Cyngor yn defnyddio System Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS) i gyfrifo'r pellter rhwng y cartref a'r ysgol mewn milltiroedd i'r 2 bwynt degol agosaf. Caiff y llwybr cerdded mwyaf diogel ei gyfrifo gan ddefnyddio data llwybr a addaswyd yr Arolwg Ordnans (AO) o gyfeiriad cartref yr ymgeisydd i'r gât ysgol agored agosaf. Pennir cyfesurynnau cyfeiriad cartref ymgeisydd gan ddefnyddio'r Rhestr Tir ac Eiddo Lleol (LLPG) A Data Pwynt Cyfeiriad AO. Man cychwyn asesiad llwybr yw'r man agosaf ar y rhwydwaith llwybrau cerdded at fynediad blaen yr eiddo. Nid yw lonydd na llwybrau preifat yn cael eu cynnwys wrth fesur y pellter. Rhaid i bob llwybr o fewn y rhwydwaith gerdded fod ar gael i'r cyhoedd bedair awr ar hugain y dydd. Pan mae rhagor o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael, caiff maen prawf 7 ei ddefnyddio i benderfynu ar ba ddisgyblion eraill a gaiff eu derbyn. Mae Cyngor Caerdydd wedi datblygu rhwydwaith o lwybrau cerdded cyfrifiadurol wedi'i seilio ar Ganllaw Gweithredol a Darpariaeth Statudol Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) Mehefin 2014. Defnyddir hwn i sicrhau bod pob disgybl yn cael ei asesu mewn ffordd mor gyson â phosibl. Pan nad oes llwybr cerdded diogel ar gael, bydd y Cyngor yn cyfrifo'r pellter gyrru byrraf rhwng y cyfeiriad cartref a'r gât ysgol agored agosaf, drwy ddefnyddio'r un System Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS) a ddefnyddir i fesur y llwybr cerdded byrraf a mwyaf ymarferol.

Yn achos fflatiau penderfynir ar y llwybr asesu o fynedfa flaen pob fflat.

6. Wrth benderfynu ar geisiadau i dderbyn disgyblion eraill, bydd y Cyngor yn rhoi blaenoriaeth i'r plant sy'n byw bellaf o'r ysgol arall a gynigir gan y Cyngor, yn ôl y llwybr cerdded ymarferol byrraf. Mae'r Cyngor yn defnyddio System Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS) i gyfrifo'r pellter rhwng y cartref a'r ysgol mewn milltiroedd i'r 2 bwynt degol agosaf. Caiff y llwybr cerdded mwyaf diogel ei gyfrifo gan ddefnyddio data llwybr a addaswyd yr Arolwg Ordnans (AO) o gyfeiriad cartref yr ymgeisydd i'r gât ysgol agored agosaf. Pennir cyfesurynnau cyfeiriad cartref ymgeisydd gan ddefnyddio'r Rhestr Tir ac Eiddo Lleol (LLPG) A Data Pwynt Cyfeiriad AO. Man cychwyn asesiad llwybr yw'r man agosaf ar y rhwydwaith llwybrau cerdded at fynediad blaen yr eiddo. Nid yw lonydd na llwybrau preifat yn cael eu cynnwys wrth fesur y pellter. Rhaid i bob llwybr o fewn y rhwydwaith gerdded fod ar gael i'r cyhoedd bedair awr ar hugain y dydd. Mae Cyngor Caerdydd wedi datblygu rhwydwaith o lwybrau cerdded cyfrifiadurol wedi'i seilio ar Ganllaw Gweithredol a Darpariaeth Statudol Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) Mehefin 2014. Defnyddir hwn i sicrhau bod pob disgybl yn cael ei asesu mewn ffordd mor gyson â phosibl. Pan nad oes llwybr cerdded diogel ar gael, bydd y Cyngor yn cyfrifo'r pellter gyrru byrraf rhwng y cyfeiriad cartref a'r gât ysgol agored agosaf, drwy ddefnyddio'r un System Gwybodaeth

Ddaearyddol (GIS) a ddefnyddir i fesur y llwybr cerdded byrraf a mwyaf ymarferol.

Yn achos fflatiau penderfynir ar y llwybr asesu o fynedfa flaen pob fflat.

7. Disgyblion y cymeradwyodd y Cyngor eu derbyn i'r ysgol ymlaen llaw.

Dim ond ceisiadau a geir erbyn y dyddiad cau a gyhoeddwyd ar gyfer derbyn ffurflenni dewis, sef 4 Rhagfyr 2017, a gaiff eu hystyried yn y rownd gyntaf o ddyrannu lleoedd. Caiff ceisiadau eraill a gawn eu hystyried yn geisiadau hwyr.

Caiff unrhyw le a gymeradwywyd ar sail preswylfa ei dynnu'n ôl os nad yw'r disgybl yn byw yn y cyfeiriad yn barhaol ar ddechrau'r tymor ysgol y mae'r cais yn berthnasol iddo (cyhoeddwyd y dyddiadau tymhorau yn y Llyfryn Derbyn i Ysgolion). Y cyfeiriad cartref yw prif a gwir breswylfa'r plentyn a'i riant ar y dyddiad a gyhoeddwyd sef 4 Rhagfyr 2017 h.y. lle maent yn byw fel arfer ac yn rheolaidd. Os yw'r plentyn yn byw gyda ffrindiau neu berthnasau (am resymau heblaw am warcheidwaeth), ni chaiff cyfeiriad y ffrindiau neu berthnasau ei ystyried at ddibenion derbyn.

Pan fo rhieni'n rhannu cyfrifoldeb dros blentyn, a bod y plentyn yn byw gyda'r ddau riant am rannau o'r wythnos ysgol, ystyrir y cyfeiriad cartref arferol fel yr eiddo y mae'r plentyn yn byw ynddo am y rhan fwyaf o'r wythnos ysgol (h.y. 3 allan o 5 diwrnod ysgol). Bydd yn rhaid i rieni gyflwyno dogfennau fel tystiolaeth i ategu'r cyfeiriad y maent am iddo gael ei ystyried at ddibenion derbyn.

Caiff plant personél lluoedd arfog y DU eu trin fel petaent yn byw yn y dalgylch os caiff y ffurflen gais ei hanfon gyda llythyr swyddogol gan y Weinyddiaeth Amddiffyn sy'n datgan dyddiad dychwelyd pendant a chadarnhad o'r cyfeiriad newydd.

Rhestrau Aros

Pan fo cais yn cael ei wrthod, bydd y plentyn yn cael ei roi ar restr aros. Bydd ceisiadau a geir fel rhan o'r broses flynyddol o ddyrannu lleoedd yn aros ar y rhestr aros tan Dymor yr Hydref 2018. Bydd ceisiadau a geir y tu allan i'r broses flynyddol o ddyrannu lleoedd sy'n ymwneud â derbyniadau yn ystod y flwyddyn yn aros ar y rhestr aros tan ddiwedd y tymor y mae'r cais yn berthnasol iddo. Ar ôl yr amser hwn disgwylir i rieni gyflwyno cais arall.

Ceisiadau Hwyr

Ar ôl y rownd gyntaf o ddyrannu lleoedd, caiff ceisiadau hwyr eu hystyried yn unol â'r meini prawf derbyn a gyhoeddwyd gan y Cyngor.

Bydd ceisiadau o'r rownd gyntaf o ddyrannu lleoedd a wrthodwyd, ac unrhyw geisiadau hwyr wedi hynny, yn cael eu hystyried ar y cyd ar gyfer unrhyw leoedd allai godi.

Caiff ceisiadau hwyr eu prosesu bob mis fel arfer.

Ceisiadau Yn Ystod y Flwyddyn

Pe bai'r Cyngor yn cael mwy o geisiadau ar gyfer grŵp oedran na nifer y lleoedd sydd ar gael, bydd lleoedd yn cael eu llenwi drwy ddefnyddio'r meini prawf derbyn uchod. (Mae'r terfynau amser yn cyfeirio at y broses flynyddol o ddyrannu lleoedd i'r grŵp oedran Blwyddyn 7 ym mis Medi 2018).

Apeliadau Statudol

Os nad yw rhieni yn fodlon ar ganlyniad cais am le mewn ysgol Uwchradd Gymuned benodol, gallant gyflwyno apêl i'r Panel Apeliadau Statudol. Bydd yn rhaid i'r Cyngor gydymffurfio ag unrhyw benderfyniad a wneir gan y Panel. Os na fydd yr apêl yn llwyddiannus, ni chaiff ceisiadau pellach am le yn yr un ysgol eu hystyried ar gyfer yr un flwyddyn academiaidd oni fydd y Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes yn penderfynu bod newidiadau sylweddol a pherthnasol i amgylchiadau'r disgybl/rhieni neu'r ysgol.

DERBYN I CHWECHED DOSBARTH

Mae'r Cyngor wedi cytuno i ddirprwyo'r cyfrifoldeb am bennu trefniadau derbyn i chweched dosbarth i Gyrrff Llywodraethu Ysgolion Cymunedol. Felly dylid cyflwyno ceisiadau'n uniongyrchol i'r ysgol.

- Ceir gwybodaeth am ddalgylchoedd ar wefan y Cyngor. Mae dalgylchoedd ysgolion sy'n darparu addysg gynradd wedi'u grwpio gyda'i gilydd i ffurfio dalgylchoedd ysgolion uwchradd a gynhelir yng Nghaerdydd.

The Council is also consulting on the co-ordination of secondary school admission arrangements which will apply to Community Schools

Nifer Derbyn, Medi 2018

Ysgolion Cynradd Cymunedol	Nifer Derbyn
Ysgol Gynradd Adamsdown	60
Ysgol Gynradd Albany	60
Ysgol Gynradd Allensbank	45
Ysgol Gynradd Baden Powell	60
Ysgol Gynradd Birchgrove	58
Ysgol Gynradd Bryn Celyn	30
Ysgol Gynradd Bryn Deri	30 ⁽¹⁾
Ysgol Gynradd Bryn Hafod	60

Ysgol Gynradd Coed Glas	75
Ysgol Gynradd Coryton	30 ⁽¹⁾
Ysgol Gynradd Creigiau	29
Ysgol Gynradd Danescourt	60
Ysgol Gynradd y Tyllgoed	40
Ysgol Gynradd Gabalfa	30
Ysgol Gynradd Gladstone	30
Ysgol Gynradd Glan-yr-Afon	41
Ysgol Gynradd Glyncoed	60
Ysgol Gynradd Grangetown	60
Ysgol Gynradd Greenway	30
Ysgol Gynradd Gwaelod-y-Garth	7
Ysgol Gynradd Hawthorn	30
Ysgol Gynradd Herbert Thompson	60
Ysgol Gynradd Howardian	60
Ysgol Gynradd Hywel Dda	60
Ysgol Gynradd Kitchener	60
Ysgol Gynradd Lakeside	60
Ysgol Gynradd Lansdowne	60
Ysgol Gynradd Llanedern	55
Ysgol Gynradd Llanisien Fach	60
Ysgol Gynradd Llysfaen	60
Ysgol Gynradd Marlborough	60
Ysgol Gynradd Meadowlane	45
Ysgol Gynradd Millbank	30
Ysgol Gynradd Moorland	90 ⁽²⁾
Ysgolion Cynradd Cymunedol	Nifer Derbyn
Ysgol Gynradd Mount Stuart	60
Ysgol Gynradd Parc Ninian	90
Ysgol Gynradd Oakfield	60
Ysgol Gynradd Pencaerau	30
Ysgol Gynradd Pentre-baen	30
Ysgol Gynradd Pentyrch	20
Ysgol Gynradd Pen-y-Bryn	30
Ysgol Gynradd Peter Lea	45
Ysgol Gynradd Pontprennau	60
Ysgol Gynradd Radnor	45

Ysgol Gynradd Radur	60 ⁽³⁾
Ysgol Gynradd Rhiwbeina	75
Ysgol Gynradd Rhydypennau	60
Ysgol Gynradd Parc y Rhath	58
Ysgol Gynradd Tredelerch	60
Ysgol Gynradd Severn	60
Ysgol Gynradd Springwood	60
Ysgol Gynradd Stacey	30 ⁽¹⁾
Ysgol Gynradd Draenen Pen-y-graig	60
Ysgol Gynradd Tongwynlais	28
Ysgol Gynradd Ton-Yr-Ywen	60
Ysgol Gynradd Trelái	60
Ysgol Gynradd Trowbridge	30
Ysgol Gynradd yr Eglwys Newydd	90
Ysgol Gynradd Willowbrook	60
Ysgol Gynradd Windsor Clive	60
Ysgol Bro Eirwg	60 ⁽¹⁾
Ysgol Coed-y-Gof	60
Ysgol Creigiau	29
Ysgol Glan Ceubal	30
Ysgol Glan Morfa	60
Ysgol Gwaelod-y-Garth	26
Ysgol Hamadryad	60
Ysgol Melin Gruffydd	60
Ysgol Mynydd Bychan	30 ⁽¹⁾
Ysgol Pencae	30 ⁽¹⁾
Ysgol Pen-y-Groes	30
Ysgol Pwll Coch	60
Ysgol Treganna	90
Ysgol Y Berllan Deg	60 ⁽¹⁾
Ysgol Y Wern	75
Ysgol Nant Caerau	30
Ysgol Pen-y-Pil	30
Ysgolion cynradd gwirfoddol a reolir	Nifer Derbyn
Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llaneirwg	15
Ysgolion Cynradd Gwirfoddol a Gynorthwyr	Nifer Derbyn

Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Yr Holl Saint	30
Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Bishop Childs	30 ⁽¹⁾
Ysgol Gynradd Gatholig Crist y Brenin	30
Ysgol Gynradd Gatholig y Teulu Sanctaidd	35
Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llandaf	60
Ysgol Gynradd Gatholig Sant Alban	30
Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Bernadette	30
Ysgol Gynradd Gatholig Sain Cadog	45
Ysgol Gynradd Gatholig Sant Cuthbert	22
Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant	30
Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sain Ffagan	30
Ysgol Gynradd Gatholig Sant Ffransis	55
Ysgol Gynradd Gatholig Sant John Lloyd	45
Ysgol Gynradd Gatholig Sant Joseff	30
Ysgol Gynradd Gatholig y Forwyn Fair	60
Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Santes Fair	37
Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Santes Monica	20
Ysgol Gynradd Gatholig Sant Padrig	45
Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sant Paul	30 ⁽¹⁾
Ysgol Gynradd Gatholig Sant Pedr	75
Ysgol Gynradd Gatholig Sant Philip	52
Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Tredegarville	30
Ysgolion Uwchradd Cymunedol	Nifer Derbyn
Ysgol Uwchradd Cantonian	181
Ysgol Uwchradd Caerdydd	240
Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd	240
Ysgol Uwchradd Cathays	165
Ysgol Uwchradd y Dwyrain	240
Ysgol Uwchradd Fitzalan	300
Ysgol Uwchradd Llanisien	300
Ysgol Gyfun Radur	210
Ysgol Uwchradd Willows	224
Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf	240
Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr	180
Ysgol Bro Edern	180
Ysgolion Uwchradd Sefydledig	Nifer Derbyn
Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd	390

Ysgolion Uwchradd Gwirfoddol a Gynorthwyr	Nifer Derbyn
Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru Esgob Llandaf	180
Ysgol Uwchradd Gatholig Corpus Christi	186
Ysgol Uwchradd Gatholig y Fair Ddihalog	159
Ysgol Uwchradd Gatholig Illtud Sant	176
Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru Teilo Sant	240

Dylid nodi ei bod yn bosibl y bydd angen newid rhai niferoedd derbyn wrth ymdrin â chynigion ad-drefnu ysgolion.

⁽¹⁾ Bwriedir cadw'r nifer derbyn presennol ar gyfer **2018** fel a ganiateir gan reoliadau LIC, yn dilyn trafodaethau helaeth â'r Pennaeth a'r Llywodraethwyr i gytuno ar ffordd briodol ymlaen yn unol â'r galw am leoedd a chapasiti'r safle.

⁽²⁾ Cynnig a gymeradwywyd i ehangu'r ysgol i 630 o leoedd wedi'i ohirio o fis Medi 2017 i fis Medi 2018.

⁽³⁾ Yn amodol ar gyhoeddi hysbysiad statudol a chymeradwyaeth gan Gabinet y Cyngor i ehangu Ysgol Gynradd Radur o fis Medi 2017.

DS. Dylid nodi bod rhai o'r cynigion uchod yn amodol ar ganiatâd cynllunio perthnasol.

DRAFT